CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr


*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**

*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*



**SWYDDOGION**

*Llywydd:*
*Dr. E D. Jones*
*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro,*
*Bow Street, Dyfed.*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*John Dilwyn Williams,*
*Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,*
*Pwllheli, Gwynedd.*
*(Pwllheli 613480)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams,*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.*
*(Caernarfon 3593)*



**Cyhoeddir Y Casglwr gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.**


## AR WERTH

*Saunders Lewis:* **Williams Pantycelyn.** *Llundain. Gwasg Foyles, 1927.*

*Owen M. Edwards:* **Clych Atgof: penodau yn hanes fy addysg.** *Y Drenewydd: Gwasg Gregynog, 1933. Copi rhif 55 o'r 400 a argraffwyd.*

*Daniel Rowlands:* **Deuddeg o bregethwyr.** *Aberystwyth. Argraffwyd ac ar werth gan Samuel Williams, 1814.*

*Y Parch. G. Howells, Panteg, Queen's Square, Aberystwyth, Dyfed SY23 2HL. Ffôn: (0970) 625403.*

*Digon o lyfrau Cymraeg ar werth. Bargeinion lawer. Cewch gyflenwad da am £5.*
*Anfonwch at: D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.*


**Gwasg Gwynedd**

**Cibyn, Caernarfon**
**Gwynedd**
**Ffôn: Caernarfon**
**(0286) 4486**

**Argraffwyr a Chyhoeddwyr**


# Dryllio delw O.M.

### Gan CERIDWEN LLOYD-MORGAN

AETH YN ffasiynol bellach i geisio profi bod cewri'r gorffennol â thraed o glai, neu o leiaf fod ochr wannach iddynt na welid yn y ddelwedd gyhoeddus. Tro O. M. Edwards fu hi eleni.

Wrth gwrs yr oedd llyfr Hazel Walford Davies yn y gyfres *Bro a Bywyd* eisoes wedi datgelu'r gwirionedd am farwolaeth gwraig O.M., Elin, ond yn y ffilm cawsom gyfle i weld sut yr aeth pethau o chwith.

O farnu yn ôl yr holl helynt ar y cyfryngau, yr oedd y ffilm i fod yn 'ddigwyddiad mawr', yn gyfle i weld nad oedd dyn a fu'n gymaint o eilun i ni'r Cymry, mor lwyddiannus yn ei fywyd priodasol.

Eto i gyd, wrth droi ein sylw at y gŵr a'r tad, llwyddid yn rhyfeddol, mi gredaf, i ennyn ein cydymdeimlad ag unigolyn a gawsai ei hun mewn sefyllfa amhosibl, lle yr oedd ennill mewn un maes yn anorfod yn golygu colli mewn un arall.

Nid yn ei briodas yn unig y bu'r colli chwaith. Paradocs bywyd O. M. Edwards fel y'i dangosir yn y ffilm hon, oedd iddo bellhau mwyfwy oddi wrth ei gyd-Gymry, yn enwedig yn ei hen gynefin yn Llanuwchllyn, po mwyaf y llwyddai yn ei frwydrau dros y genedl. Ac yn anorfod, mi dynnwyd Elin hithau gydag ef.

Do, mi ddaethant yn ôl i Llanuwchllyn, ond ni pherthynai Lady Edwards yn ei chartref newydd, ysblennydd ac unig, i'r un gymdeithas ag Elin Prys Mawr gynt: peidied neb â honni mai cymdeithas ddiddosbarth oedd Cymru ar droad y ganrif.

Ond wrth olrhain yr ymbellhau a fu ar adegau rhwng O.M. ac Elin, a ffurfioldeb y berthynas rhyngddynt a'u plant iau (yn enwedig o gymharu â chynhesrwydd naturiol y tad yn y golygfeydd gydag Ab Owen, y cyntafanedig), ni ddylem gloriannu yn ôl ein disgwyliadau ni heddiw o'r hyn a ddylai priodas a bywyd teuluol fod.

Ffurfiol iawn, o gymharu â heddiw, oedd y berthynas rhwng rhieni a phlant, yn arbennig rhwng tadau a'u plant, tan yn gymharol ddiweddar.

* * * *

ER GWAETHAF y pwyslais ar ochr drist a llai llwyddiannus bywyd O.M., ac ar iselder a hunanladdiad ei wraig, nid yw'r ffilm yn bychanu'r dyn, nac yn dryllio'r ddelwedd gonfensiynol yn gyfangwbl chwaith.

Rhyfeddwn iddo lwyddo cystal i wireddu un uchelgais ar ôl y llall er gwaethaf yr anhapusrwydd gartref ar adegau — yntau ai taflu ei hun i ragor fyth o waith a wnâi er mwyn anghofio, neu osgoi, problemau personol?

Nid oes amheuaeth fod *O.M.* yn ffilm hynod ddiddorol i'r rhai a fagwyd ar *Gymru'r Plant* a hanes y 'Welsh Not', ond rhaid anghofio gormodiaith y cyfryngau.

Er bod y ffilm yn ceisio cwmpasu gormod mewn cwta awr a hanner, ac yn methu ag ymdrin yn deg â phob pwnc a grybwylllir, eto i gyd, y mae hi'n werth ei gweld, ac yn codi digon o bwyntiau i gnoi cil arnynt.

## At y Golygydd

# DIC DYWYLL

YR WYF ar hyn o bryd yn fyfyriwr ymchwil yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn astudio bywyd a gwaith y baledwr hynod Richard Williams (Dic Dywyll). Yn anffodus, mae llawer iawn o hanes y cymeriad unigryw hwn yn anodd iawn ei brofi'n derfynol gan nad oes dystiolaeth ysgrifenedig ar glawr i gadarnhau syniadaeth a theoriau ysgolheigion a llythyrwyr, erthyglwyr a llenorion y gorffennol.

Tybed a fyddai gan rai o'ch darllenwyr unrhyw wybodaeth a fyddai'n gallu cloi'r dadleuon am ei enedigaeth, ei hanes cyffredinol ac am ei farwolaeth?

Yn ogystal â hyn, ceir rhai o faledi Richard Williams mewn rhifyn o'r *Journal of the Welsh Bibliographical Society* wedi eu gweld gan Ben Bowen Thomas, a cheir ychwanegiad bychan gan Idwal Lewis, ond nid wyf wedi llwyddo i weld yr un fersiwn o rai ohonynt. Felly, tybed a fyddai rhai o'r darllenwyr yn gyfarwydd ag enwau'r baledi canlynol:

*Can yn rhoddi hanes am Margaret Jenkins . . . wedi boddi yn y Pownd Fawr gerllaw Merthyr Tydvil . . . Gorffennaf 13, 1821.*

*Can newydd ar yr achlysur o'r fuddugoliaeth a gafodd ein grasusaf Frenhines Caroline, ar ei gelynion yr haf diweddaf, 1820.*

*Can newydd yn rhoddi hanes am Edward Barnett, yr hwn a ddihenyddiwyd yn Nhre Fynwy yr ail o Ebrill, 1829, am lofruddiaeth wirfoddol a gyflawnodd ar gorff Ester Stephens, o'r dref ragddywdiedig, yr 28ain o Fedi diweddaf.*

HEFIN JONES
*Canolfan Addysg, Glan y Fferi, Caerfyrddin SA17 5TE.*


*O dudalen 1*


Gadlys' yn netholiad Llandderfel, ond am frwydrau gorfoleddus y Brythoniaid a'r Rhufeiniaid y mae hi'n sôn, deunydd rhy bell i godi ofnau ar y Fanon.

* * * *

TAN DDIWEDD y pumdegau, yr oedd amryw yn y Bala a Phenllyn yn cofio ymweliad yr hen Fictoria. Tybed beth oedd ei bwrpas? Ai bodloni ysfa am weld *'Wild Wales'* a'r *'natives'*, ai ynteu a oedd rhyw ddibenion politicaidd yn y cefndir yn rhywle?

Mae'n ddiddorol gweled mai ym mhlasdy diwydiannwr a Rhyddfrydwr y dewisodd letya ac nid gydag un o hen deuluoedd tiriog a Thoriaidd y cylch megis Rhiwlas neu Rug.

Sgotyn, dyn 'dwad' oedd Henry Robertson; prif berchennog melinau haearn a dur Brymbo a chyfarwyddwr rheilffyrdd. Yn wir, cledrau ei felin ef a osodwyd yn rheilffordd y G.W.R. o Riwabon i Ddolgellau. Am flwyddyn, bu'n aelod seneddol Rhyddfrydol dros sir Feirionnydd.

Cofiwn hefyd mai hwn oedd cyfnod cythryblus Helynt y Degwm, ac o dan hwnnw yr oedd ymdeimlad o genedlaetholdeb yn deffro, yn arbennig yng ngogledd Cymru. Fel y gwyddom, 'does dim byd gwell i beri i'r Cymry anghofio eu cenedl na thipyn o sioe frenhinol; helcyd rhyw un neu'i gilydd o'r tylwyth coronog i ble bynnag y mae awydd gwrthryfela yn crynhoi. Dyna linell i haneswyr yn rhad ac am ddim!

Yr unig stori a glywais i am yr ymweliad oedd am rhyw ddyn o'r cylch a fu'n sefyll yn hir yn y dorf ar balmant stryd fawr y Bala i ddisgwyl gweld y goets frenhinol yn cludo'r hen fodan i'r dre. Bu'n sefyll am hydoedd, ond fe ddaeth hi o'r diwedd.

Wedi i'r orymdaith fynd heibio, gofynnodd rhywun iddo beth oedd yn ei feddwl o'r sioe. 'Wel, myn diawl,' meddai, 'dim ond hen ddynes oedd hi wedi'r cwbwl!'

Biti na buasai mwy heddiw yn dweud yr un peth am ein ffug-frenhines Thatcher I.

# YN EISIAU

*Llyfrau D. J. Williams, Abergwaun (ar wahân i* ***Hen Dŷ Ffarm****).*
*Cysyllter â D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.*

**Hanes Plwyf Niwbwrch,** *gan Hugh Owen. Cyhoeddwyd gan Gwenlyn Evans, Caernarfon, 1952.*
*Owen D. Roberts, 70 St. Michael's Road, Llandaf, Caerdydd CF5 2AQ. Ffôn: (0222) 562245.*

*David Williams:* **Cofiant J. R. Jones, Ramoth . . .** *Caerfyrddin, 1913. L. T. Stewart, 'Dyma Ni', 2 Wallbridge Drive, Leek, Staffs. ST13 8HL. Ffôn: (0538) 383326.*

*D. J. Davies:* **Hanes, hynafiaethau ac achyddiaeth Llanarth, Henfynyw, Llanllwchhaiarn a Llandyssilio-gogo.** *Caerfyrddin, Spurrell, 1875. Hefyd ail argraffiad gydag ychwanegiadau, Caerfyrddin, Spurrell, 1930. Dr Emrys Lloyd Davies, Yr Hen Ficerdy, Tre'r Gaer, Rhaglan, Gwent NP5 2LH. Ffôn: (0291) 690517.*